**<u>Cyngor Cymuned Dolbenmaen</u>**

**<u>Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol</u>**

**<u>Dyddiad:</u>**

15fed o Ionawr 2026

**<u>Presennol</u>**

Richard Williams (Cadeirydd), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton, Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Gwilym Evans (Prenteg) Iddon Edwards (Penmorfa) Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin)

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) Stephen Churchman, June Jones (Cynghorwyr Cyngor Gwynedd)

**<u>Datgan Buddiant</u>**

Neb

**<u>Penderfyniadau</u>**

**Cyllideb 2026/27 a Gosod Praesept**

Trafodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd codi cyllideb yr yswiriant i £2,000. Penderfynwyd codi cyllideb cynnal a chadw'r diffibrilwyr i £1,000. Pawb yn cydweld. Derbyniwyd y gyllideb.

Cyflwynwyd argymhelliad yr is-bwyllgor cyllid o gadw'r praesept yn £18,000. MLW yn cynnig derbyn yr argymhelliad ac IE yn eilio a phawb yn cydweld.

**Yswiriant**

Angen ychwanegu wal y fynwent ym Methel i'r cyfer yswiriant a hefyd sied bren yng Nghae Chwarae Penmorfa.

**Asesiad Risg**

Adolygwyd yr asesiad risg ac ychwanegwyd tri risg arall i'r asesiad sef difrod i wal y fynwent a hefyd i gerrig coffau tu ôl i'r wal - rhain i'w hychwanegu i bolisi yswiriant y cyngor. Ychwanegwyd anaf i berson yn y cae chwarae ym Mhenmorfa. I leihau'r risg yma dylid cwblhau archwiliad safle rheolaidd.

CW yn cynnig derbyn yr asesiad risg a MLW yn eilio a phawb yn cydweld.